

Arolygiad Iechyd Meddwl/Anabledd Dysgu (Dirybudd)

**Ysbyty Brenhinol Morgannwg:
Uned Iechyd Meddwl: Bwrdd
Iechyd Prifysgol Cwm Taf**

13 – 16 Hydref 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn:0300 062 8163

E-bost: AGIC@wales.gsi.gov.uk

Ffacs:0300 062 8387

Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	3
3.	Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau.....	7
	Safonau Craidd.....	7
	Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl	22
6.	Y Camau Nesaf.....	23
	Atodiad A.....	24

1. Cyflwyniad

Mae ein harolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau trwy:

- Fonitoro'r cydymffurfriad â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011

Canolbwynt arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath:

- yn ddiogel
- yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig a chartrefol
- yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynllun gofal a thriniaeth
- yn cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- yn cael gwneud dewisiadau ac yn cael eu hannog i wneud hynny
- yn cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial
- yn gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i fynegi pryderon a gwneud cwynion
- yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny

2. Methodoleg

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gyflwyno'r arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu'n cynnwys:

- Cyfweiliadau a thrafodaethau cynhwysfawr gyda chleifion, perthnasau, eiriolwyr a chroestoriad o staff, gan gynnwys y clinigydd cyfrifol, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, addysgwyr a staff nyrsio
- Cyfweiliadau ag uwch-staff, gan gynnwys aelodau'r bwrdd lle y bo'n bosibl
- Archwilio dogfennau gofal, gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaethol
- Craffu ar bolisiâu allweddol a gweithdrefnau
- Arsylwi ar yr amgylchedd
- Craffu ar yr amodau cofrestru ar gyfer y sector annibynnol
- Archwilio ffeiliau staff gan gynnwys cofnodion hyfforddiant
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Ystyried sut y gweithredir Mesur Cymru (2010)¹
- Archwilio cofnodion atgyfeirio yn ymwneud ag ataliaeth, cwynion, pryderon, ac amddiffyn oedolion agored i niwed
- Rhoi trosolwg o brosesau storio, gweinyddu, archebu a chofnodi cyffuriau gan gynnwys cyffuriau a reolir
- Ystyried ansawdd y bwyd
- Gweithrediad y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

¹ Ddedfwriaeth sylfaenol a weir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Mesur. Ymhlith materion eraill, mae'n darparu ar gyfer asesu, cynllunio gofal, a chydgysylltu mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae un uned iechyd meddwl aciwt i gleifion mewnl sy'n oedolion ar gyfer Cwm Taf i gyd, ac fe'i lleolir yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Mae'r uned yn cynnwys:

- Uned dderbyn/asesu 14 gwely
- Dwy ward driniaeth ac iddynt 14 gwely'r un (Wardiau 21 a 22)
- Uned Gofal Dwys Seiciatrig chwe gwely

Roedd gwelyau iechyd meddwl ar gyfer pobl hŷn hefyd yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, a oedd yn cynnwys:

- Ward Seren - ward asesu iechyd meddwl organig 14 gwely
- Man Gofal Estynedig - ward bum gwely ar gyfer gofal estynedig
- Ward Dewi Sant - ward asesu iechyd meddwl gweithredol ac iddi ddeg gwely

Mae'r bwrdd iechyd hefyd yn darparu dau wasanaeth adsefydlu neilltuedig ar gyfer cleifion mewnl, a leolir yn Nhreorci yng Nghwm Rhondda.

- Mae Tŷ Pinewood yn wasanaeth adsefydlu cymunedol ar gyfer cleifion mewnl, ac iddo 16 gwely, a leolir yn y stryd fawr yng nghanol tref Treorci.
- Mae'r Uned Adferiad â Chymorth yn wasanaeth dibyniaeth uchel ac iddo 15 gwely, a leolir o fewn Ysbyty George Thomas yn Nhreorci.

4. Crynodeb

Roedd ein harolygiad o Uned Iechyd Meddwl Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn cynnwys pob un o'r saith ward iechyd meddwl. Canfuom fod llawer o le i wella, ond roeddem yn falch o nodi rhai canfyddiadau cadarnhaol. Trwy gydol yr ymweliad, gwelsom fod staff yn ymroddedig ac yn garedig wrth y grŵp cleifion.

Ar ôl ein hymweliad, gwnaethom gyflwyno llythyr sicrwydd ar unwaith i'r bwrdd iechyd ynglŷn â dau faes a oedd yn peri pryder inni. Mae'r bwrdd iechyd wedi rhoi ymateb inni, gan nodi'r camau gweithredu a roddir ar waith er mwyn lliniaru'r meysydd yr oedd AGIC yn pryderu yn eu cylch.

Roedd un maes a oedd yn peri pryder yn ymwneud â lefelau staff nyrsio. Roedd lefelau staffio isel yn broblem, yn enwedig ar y noson y gwnaethom gyrraedd, ac mae'n bosibl y gallai hyn amharu ar ddiogelwch cleifion a staff pe bai digwyddiad. Fe wnaethom weld aelod o staff yn helpu ar ward arall, a oedd yn golygu ei fod wedi gadael y ward gydag un aelod o staff ar gyfer deg claf. Mae'r bwrdd iechyd wedi cymryd camau ar unwaith, ac wedi ychwanegu cynorthwydd gofal iechyd ar y rota, i roi cymorth ychwanegol yn y ddwy ward.

Nodwyd problemau sylweddol ynglŷn â'r amgylchedd a gwaith cadw a chynnal, a oedd yn cael effaith ar staff a chleifion. Canfuom broblemau ynglŷn â'r draeniau, a oedd yn achosi problemau penodol yn y tai bach a'r cawodydd - ac yn gadael aroglau annifyr. Rhoddwyd sicrwydd inni fod y bwrdd iechyd yn mynd i'r afael a'r mater hwn, ac fe fyddwn ni'n argymhell ateb cyflym.

Nid oedd yr amgylchedd yn ffafriol i les cleifion. Roedd trefn yr amgylchedd yn peri pryderon ynglŷn â diogelwch ar gyfer staff a chleifion, yn enwedig yn yr ystafelloedd gwely. Yn ogystal, gwelsom nad oedd system larwm galw am nyrs ar waith. Roedd ffryntiau droriau ar goll ar rai eitemau o ddodrefn yn yr ystafelloedd gwely, a chyfleusterau nad oeddent yn gweithio, gan gynnwys sanciau, toiledau a chawodydd. Roedd socedi trydan a stopiau drws wedi torri, ac nid oedd llenni preifatrwydd rhwng y gwelyau yn yr ystafelloedd dau wely. Roedd y tolciau a'r tyllau yn y waliau a'r nenfydau yn hyll, ac roedd ffenestri'n cael eu cadw ar agor mewn rhai ystafelloedd trwy ddefnyddio cwpanau a dulliau eraill.

Roedd angen rhoi sylw i'r amgylchedd er mwyn ei wneud yn fwy ffafriol i les cleifion. Roedd y manau awyr agored, yn enwedig y manau ysmegu ar y Ward Dderbyn a Ward 21, yn fudr ac yn ddiogroeso. Roedd ffenestr wedi torri a oedd wedi cael ei thrwsio dros dro â phren, a oedd wedi bod yno ers cryn amser; roedd hwn yn ei dro wedi cael ei ddifwyno ag ysgrifennu. Mae angen trwsio'r ffenestr hon â gwydr yn lle pren.

Roedd yr ail faes a oedd yn peri pryder ar unwaith y gwnaethom dynnu sylw'r bwrdd iechyd ato yn ymwneud â phwyntiau clymu ac archwiliadau. Nodwyd nifer o bwyntiau clymu posib ledled y wardiau yn ystod ein hymweliad. Er ei bod yn dda gennym nodi'r dodrefn newydd a oedd wedi cael eu prynu ar gyfer yr uned gofal dwys seiciatrig, roedd rhai gosodiadau ar y dodrefn newydd y gellid clymu rhwymyn arnynt. Cynhaliwyd yr archwiliad diwethaf o bwyntiau clymu ar yr uned gofal dwys seiciatrig yn 2013 - cafodd archwiliadau o bwyntiau clymu ar y wardiau eraill eu cynnal o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Roedd angen archwiliad o bwyntiau clymu ar gyfer yr uned gofal dwys seiciatrig ar unwaith, ac mae'r bwrdd iechyd wedi gwneud hyn.

Roedd yn dda gennym nodi bod y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysbyty. Roedd therapïau a gweithgareddau ar gael i gleifion ar y ward ac oddi arni, ac roedd gan y Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol bresenoldeb rheolaidd ar y wardiau, er mwyn annog cleifion i gymryd rhan mewn gweithgareddau.

Roedd gwybodaeth i gleifion ar gael ac yn weladwy ar y wardiau, gan gynnwys gwasanaethau eiriolaeth, y Canolfan Cyngor ar Bopeth a thafleuni gwybodaeth eraill. Dywedodd cleifion a staff fod cynrychiolwyr gwasanaethau eiriolaeth yn dod i'r wardiau'n rheolaidd.

Dangosodd adolygiad o hyfforddiant gorfodol staff fylchau sylweddol mewn rhai meysydd. Yn ogystal, roedd y wybodaeth am hyfforddiant gorfodol staff a oedd ar gael yn ystod ein harolygiad yn anghyflawn, oherwydd bod y gwasanaeth yng nghanol y broses o drosglwyddo i gofnodion staff electronig. Mae hyn yn anfoddhaol. Mae angen adolygiad a diweddariad o sgiliau a gwybodaeth staff.

5. Canfyddiadau

Safonau Craidd

Amgylchedd y ward

Mae'r Uned Iechyd Meddwl yn uned hunangynhwysol, sy'n gyfagos â phrif adeilad Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Mae gan yr Uned Iechyd Meddwl ei mynedfa a'i derbynfa ei hun, gyda nifer o swyddfeydd ac ystafelloedd cyfarfod ar y llawr daear.

Wrth fynd i mewn i'r cyntedd mawr, mae drysau sy'n arwain at nifer o fannau a wardiau, gan gynnwys uned gofal dwys seiciatrig a wardiau ar gyfer pobl hŷn. Lleolir y Ward Dderbyn a'r ddwy ward driniaeth i oedolion, Ward 21 a Ward 22, i fyny'r grisiau.

Roedd yn bosibl cael mynediad i'r wardiau i fyny'r grisiau trwy ddefnyddio'r grisiau neu'r lifft. Roedd system intercom er mwyn cael mynediad at y wardiau, gan fod drysau'r ward o dan glo. Roedd y prif ddrws i'r wardiau ar Ward 21, ac roedd staff yn hebrwng ymwelwyr i'r ward briodol.

Roedd y ward dderbyn yn ward 14 gwely ar gyfer menywod a dynion. Roedd gan y ward gymysgedd o ystafelloedd gwely, gan gynnwys pum ystafell wely sengl â chyfleusterau en-suite, a phedair ystafell ddau wely ar ffurf ystafell gysgu. Roedd gan bob ystafell wely sengl gyfleusterau en-suite, a oedd yn cynnwys cawod, toiled a sinc. Roedd gan yr ystafelloedd gwely wely sengl a lle storio ar gyfer dillad ac eiddo personol. Roedd gan yr ystafelloedd dau wely ar ffurf ystafell gysgu wely a chyfleusterau storio hefyd, a sinc a oedd yn cael ei rhannu. Nid oedd cyflenwad o dŵr yn y sinc yn un o'r ystafelloedd a welsom, felly nid oedd y cleifion yn gallu ei defnyddio. Yn yr un ystafell wely, roedd cist o ddroriau heb ffryntiau, ac roedd rhai tolciau yn y waliau a thyllau yn y nenfwd, lle roedd rheiliau wedi cael eu tynnu'n ddiweddar.

Roedd nifer o dai bach a chawodydd/cyfleusterau ymolchi ar wahân ar gyfer menywod a dynion ar y ward. Nid oedd gan un ystafell ymolchi a welsom offer codi ar gyfer y baddon. Pan fydd angen offer codi ar gleifion er mwyn iddynt gael bath, cadarnhaodd staff y byddent yn mynd â nhw i lawr y grisiau er mwyn iddynt ddefnyddio'r cyfleusterau ar y ward ar gyfer pobl hŷn.

Mae dwy ystafell gyfarfod/ymwelwyr ar y ward hon. Roedd set deledu wedi torri yn un o'r ystafelloedd yr oedd angen cael gwared arni. Roedd cadeiriau,

cyfrifiadur a ffôn yr oedd y cleifion yn gallu eu defnyddio yn yr ystafell arall. Trwy gydol ein hymweliad, gwelsom fod cwpan budr wedi cael ei adael ar lawr yr ystafell gyfarfod hon. Roedd y cwpan yno am ddeuddydd.

Roedd bwrdd gwybodaeth am gleifion yng nghorlan y nyrsys a oedd yn cynnwys manylion personol am bob claf. Roedd cleifion eraill ac ymwelwyr yn gallu gweld y bwrdd. Roedd un gorchudd ar gael i'w roi dros y bwrdd pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio; fodd bynnag, ni welsom y bwrdd wedi'i orchuddio yn ystod ein hymweliad. Roedd byrddau gwybodaeth am gleifion yn weladwy hefyd yn y wardiau eraill yn yr ysbyty y gwnaethom ymweld â nhw. Er mwyn parchu cyfrinachedd cleifion, mae'n rhaid sicrhau na ellir gweld gwybodaeth am gleifion pan nad yw'r byrddau'n cael eu defnyddio.

Roedd gan gegin y ward, a oedd o dan glo, oergell ar gyfer cleifion, tostiwr, meicrodon, oergell ar gyfer staff, a bwyler dŵr. Roedd rhai cypyrddau a oedd angen eu trwsio, oherwydd bod ganddynt ddrysau wedi torri, ac ar adeg ein hymweliad roedd arogl annifyr a oedd yn ymddangos pe bai'n dod o'r system ddraenio.

Roedd gan lolfa'r cleifion ddigon o seddi ar gyfer deg o gleifion, er bod y ward yn gallu rhoi llety i 14 o gleifion. Roedd cymysgedd o gadeiriau sengl a soffas dwy sedd. Roedd set deledu wedi'i gosod ar y wal, bwrdd a gweddillion ffrâm lluniau - a oedd, yn ôl staff, wedi cael ei rwygo gan gleifion ar y diwrnod hwnnw. Roedd cwpwrdd llyfrau ar gael ac ynddo rywfaint o lyfrau.

Roedd ystafell fwyta'r cleifion ddrws nesaf. Roedd gan yr ystafell oerydd dŵr, pedwar bwrdd a 12 cadair. Roedd cleifion yn gallu gwneud eu diodydd poeth eu hunain.

Roedd patio bach yn darparu man awyr agored ar gyfer cleifion, a oedd yn cael ei ddefnyddio'n bennaf gan gleifion ar gyfer ysmegu. Roedd gan y man fainc, bin a thaniwr sigarêts ar y wal. Roedd y man yn fudr a llawn gweddillion sigarêts, ac roedd cwpanau budr wedi cael eu gadael ar silff ffenest. Roedd ffenest wedi cael ei thrwsio dros dro â phren, a oedd wedi bod yno ers cryn amser. Roedd y pren yn ei dro wedi cael ei ddifwyno ag ysgrifennu. Mae angen trwsio'r ffenestr hon â gwydr, a thacluso a chynnal a chadw'r man hwn yn gyffredinol.

Roedd hysbysfyrdau cleifion yn arddangos gwybodaeth, a oedd yn cynnwys gwasanaethau eiriolaeth a manylion y Ganolfan Cyngor ar Bopeth a Hafal, yn ogystal â thafflenni a phosteri gwybodaeth eraill. Roedd ffôn talu, a oedd yn gweithio, yn y coridor.

Roedd Ward 21 a Ward 22 yn wardiau triniaeth ar gyfer menywod a dynion ac iddynt 14 gwely ar bob un. Roedd ystafelloedd gwely ar y ddwy ward yn cynnig llety sengl â chyfleusterau en-suite, yn ogystal ag ystafelloedd dau wely ar ffurf ystafell gysgu. Yn ystod y dydd, roedd y drysau dwbl a oedd rhwng y ddwy ward ar agor er mwyn i gleifion gael mynediad at y ddwy ward. Mae'r drysau hyn o dan glo yn ystod y nos.

Roedd y prif ddrws i'r holl wardiau i fyny'r grisiau yn Ward 21, ac fe leolir yr holl ystafelloedd, ar wahân i'r ystafelloedd gwely, ar hyd un coridor. Roedd lolfa'r cleifion yn darparu seddi ar gyfer 13 o bobl, ac roedd y cadeiriau a'r soffas wedi'u trefnu ar ymylon yr ystafell. Roedd set deledu wedi'i gosod ar y wal, a chwaraeydd DVD wedi'i gysylltu â hi. Fodd bynnag, nid oedd y gwifrau a oedd yn cysylltu'r dyfeisiadau wedi'u cuddio'n ddiogel. Roedd rhywfaint o lyfrau mewn cwpwrdd llyfrau a oedd â rhai silffoedd ar goll.

Roedd pedwar bwrdd yn yr ystafell fwyta, a digon o seddi ar gyfer y grŵp cleifion. Roedd cyfleusterau ar gyfer gwneud te a choffi hefyd ar gael i'r grŵp cleifion. Roedd oerydd dŵr y tu allan i'r ystafell fwyta.

Roedd gan Ward 21 ddau fan awyr agored at ddefnydd y cleifion. Roedd un ohonynt yn batio â seddi a bwrdd pren. Roedd potiau blodau ac ynddynt flodau'n gwneud y man yn groesawgar. Roedd y man arall yn cael ei ddefnyddio fel man ysmegu i gleifion, ac roedd yn fudr ac yn ddigroeso, fel y patio ar y ward dderbyn. Roedd brws ysgubo wedi'i adael yn y man hwn - fe'i symudwyd gan staff pan wnaethant ddweud pa mor amhriodol oedd gadael brws yn y man hwn.

Roedd hysbysfyrdau ar gyfer cleifion ar Ward 21, a oedd yn arddangos gwybodaeth ynglŷn â gwasanaethau cymorth i gleifion megis eiriolaeth.

Yn yr un modd ag ar y ward dderbyn, roedd bwrdd gwybodaeth am gleifion yn y swyddfa nyrsys ar Ward 21, a oedd yn cynnwys manylion personol pob claf - ond roedd cleifion eraill ac ymwelwyr yn gallu ei weld. Mae'n rhaid cuddio gwybodaeth bersonol am gleifion pan nad yw'r bwrdd yn cael ei ddefnyddio.

Roedd diffyg lleoedd storio yn broblem ar Ward 21. Roedd yr ystafelloedd a welsom nad ydynt ar gyfer cleifion yn cael eu defnyddio fel lleoedd storio amldefnydd, ar gyfer eitemau megis addurniadau Nadolig, eiddo cleifion (rhai presennol a rhai'r gorffennol), hen fatresi, cadair olwyn, hen arwyddion, a chotiau staff. Byddai'r hen ystafell lifddor ar ei hennill pe symudid y sinc er mwyn creu lle ychwanegol. Mae angen glanhau a thacluso'r ystafelloedd hyn yn drwyadl er mwyn sicrhau nad oes unrhyw beryglon tân posibl, ac nad yw'r eitemau wedi'u storio'n cael eu croes-heintio/halogi.

Gwelsom faterion amgylcheddol ar Ward 22 a oedd yn debyg i'r hyn a welwyd ar y wardiau eraill. Roedd y materion penodol a nodwyd sydd angen eu hadolygu'n cynnwys y canlynol:

- Nid oedd y ffôn talu yn y coridor yn rhoi unrhyw breifatrwydd, ac roedd y set law ar goll.
- Roedd pinnau bawd yn yr hysbysfyrddau yr oedd cleifion yn gallu eu cyrraedd yn hawdd. Mae angen trefnu dull arall o osod eitemau ar yr hysbysfwrdd.
- Nid oedd y tai bach gyferbyn â lolfa'r cleifion yn cynnig llawer o urddas, ac nid oedd y clo yn yr ystafell ymolchi i fenywod yn addas i'r diben.

Roedd problemau sylweddol ynghylch un o'r ystafelloedd gwely cleifion. Nid oedd y toiled na'r gawod yn yr ystafell en-suite yn gweithio; nid oedd bleindiau na llenni ar y ffenestr; roedd soced trydan a stop drws wedi torri; ac ni fyddai'r ffenestr yn aros i fyny, gyda'r claf yn gorfod defnyddio cwpanau er mwyn ei chadw ar agor.

Mae'r uned gofal dwys seiciatrig yn ward chwe gwely ar gyfer menywod a dynion. Nid oedd trefn a siâp ystafelloedd gwely'r uned gofal dwys seiciatrig yn galluogi staff i roi cymorth neu i rwystro cleifion pe bai angen. Nid oedd pedwar o'r chwe chyfleuster cawod a thŷ bach en-suite yn gweithio, gydag un ystafell ymolchi ychwanegol yn unig ar yr uned gofal dwys seiciatrig ar gyfer hyd at chwe chlaf. Mae'r broblem hon wedi parhau ers cryn amser, ac mae angen rhoi sylw iddi ar unwaith.

Roedd yn dda gennym nodi bod dodrefn newydd wedi cael eu prynu, a bod ystafelloedd gwely'n cael eu huwchraddio â chypyrddau newydd. Fodd bynnag, roedd pwyntiau clymu ar y ffitiadau ar y dodrefn newydd, ac felly mae angen eu newid.

Roedd gan yr Uned Iechyd Meddwl yn gyffredinol broblemau ynghlŷn â'r draeniau, ac roedd y broblem hon yn amlwg ledled yr uned - ac aroglau annifyr yn cael eu nodi ar bob ward. Dywedodd staff wrthym eu bod yn ymwybodol o'r broblem hon, a bod Adran Ystadau'r bwrdd iechyd yn mynd i'r afael â hi.

Argymhellion

Mae angen adolygiad o'r amgylchedd, ac mae'r gwaith atgyweirio sydd ei angen yn yr uned drwyddi draw yn cynnwys y canlynol:

- mae angen set law newydd ar gyfer y ffôn talu ar Ward 22
- mae angen gosod ffryntiau ar y droriau lle maent ar goll yn yr ystafelloedd gwely
- roedd angen trwsio'r cypyrddau yn y gegin ar y ward dderbyn
- mae angen sicrhau bod gan y sinciau ar y ward dderbyn gyflenwad o ddŵr
- mae angen atgyweirio'r tŷ bach a'r cawodydd ar Ward 22 ac yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig ar unwaith, gan nad oeddent yn gweithio
- nid oedd bleindiau a/neu lenni wedi'u gosod ar ffenestri rhai ystafelloedd gwely
- roedd soced trydan mewn ystafell wely ar Ward 22 wedi torri ac mae angen ei drwsio
- roedd stopiau drws wedi torri yn rhai o'r ystafelloedd gwely
- mae angen adolygiad o'r mecanweithiau ar gyfer agor ffenestri, er mwyn sicrhau y gellir agor y ffenestri yn ddigon i gael mynediad at awyr ffres
- mae angen trwsio'r tolciau a'r tyllau yn y waliau a'r nenfydau
- mae angen cael gwared ar y set deledu sydd wedi torri ar y ward dderbyn
- mae angen adolygu'r defnydd o binnau bawd y mae cleifion yn gallu eu cyrraedd ar rai hysbysfyrddau, er mwyn sicrhau nad yw diogelwch cleifion yn cael ei amharu
- mae angen rhoi sylw i'r clo ar yr ystafell ymolchi i fenywod ar Ward 22 er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben

Mae angen rhoi sylw i'r manau awyr agored, yn enwedig y manau ysmegu ar y ward dderbyn a Ward 21, er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y grŵp cleifion. Mae angen eu glanhau'n drwyadl a gosod gwydr diogelwch newydd.

Mae angen mynd i'r afael â'r broblem barhaus ynglŷn â'r draeniau ledled yr uned, ac mae angen cymryd camau er mwyn cael gwared ar yr aroglau annifyr sydd ar y wardiau.

Mae angen adolygiad o'r cyfleusterau storio, yn enwedig ar Ward 21, er mwyn sicrhau bod yr ystafelloedd yn cael eu defnyddio mewn ffordd briodol, yn hytrach nag fel lle i waredu ar bob math o offer, eiddo a gwahanol eitemau.

Mae angen adolygiad o'r dodrefn newydd yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig, er mwyn sicrhau nad oes pwyntiau clymu ar y gosodiadau a'r ffitiadau.

Diogelwch

Nid oedd niferoedd digonol o staff nyrsio i'w gweld ar y rhan fwyaf o'r wardiau yn ystod ein hymweliad yn y gyda'r nos. Ar noson gyntaf ein harolygiad o Ward 21 a 22, roedd gan bob ward un nyrs gofrestredig ac un cynorthwydd gofal iechyd ar ddyletswydd. Yn ystod yr adeg hon, roedd angen cymorth ar Ward 22. Bu'n rhaid i'r cynorthwydd gofal iechyd ar Ward 21 roi'r cymorth hwn, gan adael Ward 21 gydag un aelod o staff ar gyfer deg claf. Roedd y sefyllfa hon yn anniogel ar gyfer cleifion a staff, ac mae angen adolygiad er mwyn sicrhau bod niferoedd digonol o staff ar ddyletswydd.

Gwnaeth trafodaethau â staff dynnu sylw hefyd at broblemau ynglŷn â niferoedd staffio, gyda staff yn dweud eu bod yn teimlo o dan bwysau pan fu'n rhaid iddynt gynnal arsylwadau un i un ar gleifion, yn enwedig pe bai'r claf yn ymddwyn mewn ffordd heriol. Lleisiodd rhai aelodau o staff bryderon ynglŷn â'r cymysgedd o gleifion, gan ddweud bod angen gofal ychwanegol ar gleifion a chanddynt afiechydon corfforol - a bod y sefyllfa hon yn anodd ar rai sifftiau oherwydd y niferoedd a oedd ar ddyletswydd.

Gwnaethom nodi nifer o swyddi gwag, yn enwedig ar yr uned gofal dwys seiciatrig, a oedd yn aros i gael eu llenwi. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom fod nifer o staff yn gwneud sifftiau banc er mwyn mynd i'r afael rhywfaint â'r diffyg staff. Er bod gan y staff wybodaeth am yr uned yn gyffredinol, gwelwyd bod y wybodaeth am y grŵp cleifion yn gyfyng, yn enwedig niferoedd cleifion ac unrhyw adrannau o'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983) yr oedd cleifion yn cael eu cadw o danynt.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysbyty, ac roedd gan y staff larymau pe bai angen galw am gymorth. Fodd bynnag, nid oedd system larwm galw am nyrs yn ystafelloedd gwely'r cleifion nac yn y manau cleifion.

Gwelwyd nifer o bwyntiau clymu/perylon ledled y wardiau. Roedd gwelyau mewn rhai wardiau y gellid clymu rhwymyn arnynt, roedd dolenni ar y cypyrddau newydd yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig y gellid eu defnyddio i glymu rhwymyn, ac roedd y colynnau piano ar y drysau yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig yn ddigon isel i glymu rhwymyn arnynt. Cafodd yr archwiliad diwethaf o bwyntiau clymu a roddwyd i AGIC yn ystod yr arolygiad ei gynnal a'i ddogfennu yn 2013. Mae angen cynnal archwiliad o bwyntiau clymu ar gyfer yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig ar unwaith, a dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod archwiliadau o'r fath yn cael eu cynnal yn rheolaidd, neu ar ôl newidiadau i'r amgylchedd cleifion.

Roedd trefn yr amgylchedd yn peri pryderon ynglŷn â diogelwch ar gyfer staff a chleifion, yn enwedig yn ystafelloedd gwely'r cleifion. Roedd rhai

ystafelloedd ar ffurf 'L' ac yn gul - byddai hyn yn ei wneud yn anodd rhwystro cleifion mewn modd diogel yn y manau hyn.

Argymhellion

Mae angen adolygiad o niferoedd staff nyrsio er mwyn sicrhau bod digon o staff ar draws yr holl wardiau, ac i sicrhau diogelwch a lles pob claf a phob aelod o staff.

Mae angen archwiliad o bwyntiau clymu ar gyfer yr holl uned, ac mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.

Mae angen adolygiad o drefn yr holl wardiau, er mwyn sicrhau bod diogelwch cleifion a staff yn cael ei gynnal ym mhob man - gan ganolbwyntio yn benodol ar ystafelloedd gwelyau'r cleifion.

Y tîm amlddisgyblaethol

Gwnaeth y staff y gwnaethom siarad â nhw sylwadau cadarnhaol ynglŷn â gwaith y tîm amlddisgyblaethol, gan nodi nifer o ddisgyblaethau a oedd yn bresennol mewn cyfarfodydd, gan gynnwys meddygon, uwch-staff nyrsio, staff iechyd galwedigaethol, staff y fferyllfa, a'r timau triniaeth yn y gymuned. Dywedodd y staff fod y tîm amlddisgyblaethol yn gweithio mewn ffordd broffesiynol a chydweithredol, a gofynnir am safbwyntiau proffesiynol ac fe'u gwerthfawrogir.

Mae rowndiau ward yn cael eu cynnal yn rheolaidd - a phob dydd ar y ward dderbyn. Dywedodd staff fod y cyfarfodydd hyn yn para'n rhy hir yn y gorffennol, ac roedd newidiadau wedi cael eu gwneud er mwyn sicrhau eu bod yn fwy effeithlon o ran amser.

Nid oedd gan lawer o'r wardiau, gan gynnwys yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig, ymgynghorydd arwain. Ar adeg ein hymweliad, roedd hyd at bedwar ymgynghorydd ar rai wardiau, a phob un yn gofyn am ei gyfarfodydd rowndiau ward ei hun. O ganlyniad i nifer y cyfarfodydd, dywedodd rhai staff fod diffyg staff wedi bod yn broblem ar adegau. Byddai'n fuddiol cynnal adolygiad o ymgysylltiad ymgynghorwyr er mwyn sicrhau bod staff yn gweithio yn y ffordd fwyaf effeithlon, ac ar yr un pryd yn sicrhau dilyniant gofal ar gyfer cleifion.

Dywedodd staff eu bod yn mynychu cyfarfodydd staff yn rheolaidd, a oedd yn cynnwys cyfarfodydd trosglwyddo sifft a diwrnodau i ffwrdd ar gyfer y tîm. Dywedodd staff ar nifer o wardiau fod y broses ddyddiol o drosglwyddo sifft yn cael ei gwneud ar lafar, ac y byddai staff yn ysgrifennu eu nodiadau eu

hunain, a'u carpio ar ddiwedd eu sifft. Nid yw'r system ar gyfer trosglwyddo sifft yn dderbyniol. Mae angen cadw a dogfennu nodiadau cynhwysfawr ar y wardiau ar gyfer y broses o drosglwyddo sifft.

Argymhellion

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r cyfraniad a wneir gan ymgynghorwyr at y wardiau yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

Mae angen cyflwyno system well ar gyfer trosglwyddo sifft, er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth trosglwyddo sifft yn cael ei chofnodi mewn ffordd briodol, yn hytrach na chael ei charpio.

Preifatrwydd ac urddas

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun. Roedd gan rai ystafell wely sengl â chyfleusterau en-suite, ac roedd cleifion eraill mewn ystafell ddau wely ar ffurf ystafell gysgu. Dywedodd cleifion fod staff, ar y cyfan, yn parchu eu preifatrwydd a'u hurddas, ac yn cnocio ar ddrws eu hystafelloedd gwely cyn mynd i mewn. Fodd bynnag, dywedodd un claf, pe na fyddech yn ateb i staff yn ddigon cyflym pan fyddent yn cnocio, fe fyddent yn agor y drws a dod i mewn, ni waeth pe byddech yn barod iddynt ddod i mewn neu beidio.

Gwnaeth ein harolygiad o'r amgylchedd nodi nifer o faterion ynglŷn â phreifatrwydd ac urddas. Nid oedd llenni rhwng y gwelyau yn un o'r ystafelloedd dau wely ar y ward dderbyn. Felly, pe bai claf am ddadwisgo neu newid ei ddillad, nid oedd preifatrwydd er mwyn iddo wneud hynny.

Roedd rhai cleifion yn gallu cloi drysau eu hystafelloedd gwely o'r tu mewn, ond nid oedd yr un o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw'n gallu cloi'r drws pan wnaethant adael yr ystafell. Dywedodd nifer o gleifion wrthym fod eitemau gwerthfawr wedi mynd ar goll o ganlyniad, ac nad oeddent wedi cael eu darganfod/eu dychwelyd. Dywedodd staff wrthym fod eitemau gwerthfawr cleifion yn cael eu cofnodi pan fyddant yn cyrraedd y ward, a'u bod yn cael eu hannog i roi eitemau gwerthfawr i deulu er mwyn eu cadw'n ddiogel. Pan fydd staff yn cael eu hysbysu bod eitem ar goll, maent yn cynnal chwiliad llawn, sy'n cael ei ddogfennu. Os na cheir o hyd i eitem, mae'r wybodaeth yn cael ei throsglwyddo i uwch-aelod o staff, sy'n penderfynu a oes angen gwneud ad-daliad.

Roedd yn dda gennym nodi bod cleifion yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysbyty, a bod teimladau o fod yn anniogel yn aml o ganlyniad i deimlo'n sâl. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gwybod pwy oedd eu nyrs a enwir. Er bod teulu a ffrindiau'n gallu dod i weld

eu perthnasau, roedd lle ar gyfer amser preifat ar y wardiau'n gyfyng. Ni châi ymwelwyr fynd i'r ystafelloedd gwely, felly roedd yr ystafell fwyta, y lolfa ac unrhyw ystafelloedd ymwelwyr yn cael eu defnyddio. Dywedodd rhai cleifion eu bod yn gallu gadael y ward gyda theulu a ffrindiau.

Roedd cleifion yn cael defnyddio ffonau symudol er mwyn cadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau. Fodd bynnag, roedd y cleifion hynny a oedd â ffôn symudol yn cwyno am y signal gwael yn yr ysbyty, gyda rhai cleifion yn methu codi unrhyw signal. Dywedodd cleifion a staff y gellid defnyddio ffonau'r ward er mwyn cysylltu â pherthnasau, ac roedd ffonau talu ar y wardiau. Ar adeg ein hymweliad, nid oedd set law ar y ffôn talu ar Ward 22, a dywedwyd wrthym mai dyma fu'r sefyllfa ers cryn amser. Yn ogystal, dywedodd un claf wrthym ei fod wedi gofyn i wneud galwad ffôn, ond gwnaeth y staff wrthod heb roi rheswm dros eu penderfyniad.

Nodwyd rhai problemau ynghylch preifatrwydd ar y wardiau ar gyfer menywod a dynion, yn enwedig ynglŷn â'r cawodydd a'r tai bach ar y wardiau. Lleolir y tai bach ar Ward 22 gyferbyn â lolfa'r cleifion. Gall y ffaith fod y tai bach mor agos i'r lolfa beri problemau ynglŷn â phreifatrwydd ac urddas, yn enwedig os oes ymwelwyr yn y lolfa ac mae angen cymorth ar gleifion i fynd i'r tŷ bach. Roedd gan yr uned gofal dwys seiciatrig gyfleusterau cawod ym mhob ystafell wely, ond nid oedd pedwar o'r chwe chawod hyn yn gweithio. O ganlyniad, roedd hyn yn cyfyngu'r cyfleusterau ar gyfer cleifion (dynion a menywod), gydag un ystafell ymolchi ychwanegol yn unig ar y ward. Dywedodd staff wrthym fod y problemau ynglŷn â'r cawodydd yn yr uned gofal dwys seiciatrig wedi bod ers o leiaf pedair blynedd. Mae angen ystyried y cymysgedd o fenywod a dynion ar y wardiau, a sicrhau bod y cyfleusterau'n gweithio.

Roedd yn bosibl gweld byrddau gwyn yn y swyddfa nyrsys, ac arnynt wybodaeth bersonol am gleifion, o'r tu allan ar nifer o wardiau. Mae'n bosibl y gallai cleifion eraill ac ymwelwyr â'r wardiau weld y wybodaeth hon. O'r herwydd, mae'n rhaid sicrhau na ellir gweld y wybodaeth hon er mwyn amddiffyn cyfrinachedd cleifion.

Argymhellion

Mae angen gosod llenni preifatrwydd rhwng y gwelyau yn yr ystafelloedd dau wely.

Mae angen adolygiad o'r wardiau ar gyfer menywod a dynion, ac ystyried eu defnyddio ar gyfer naill ai menywod neu ddynion.

Mae angen gorchuddio'r byrddau gwybodaeth am gleifion yn y swyddfa nyrsys pan nad ydynt yn cael eu defnyddio, er mwyn diogelu'r wybodaeth sydd arnynt.

Therapiau a gweithgareddau i gleifion

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod ganddynt ddigon o bethau i'w gwneud, ac y gofynnwyd iddynt yr hyn yr hoffent ei wneud. Roedd gan yr Uned Iechyd Meddwl fan lle roedd cleifion yn gallu cael mynediad at gampfa, bwrdd pŵl, celfau a chrefftau, a chegin. Ar y wardiau, roedd staff yn cynnig gweithgareddau i'r cleifion, a oedd yn cynnwys bingo, a dywedwyd wrthym fod posau jig-so a gemau bwrdd ar gael. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod y gemau a'r posau jig-so'n cael eu cadw o dan glo. Mae'n hanfodol egluro i gleifion sut y gallant gael mynediad at yr eitemau hyn. Roedd car pŵl ar gael i'r uned, a dywedodd staff wrthym eu bod wedi'i ddefnyddio ar adegau ar gyfer gwibdeithiau i'r gymuned, yn ogystal ag apwyntiadau gofal iechyd gyda'r deintydd a'r optegydd.

- Roedd cleifion a chanddynt seibiant Adran 17, a'r rhai a oedd yn gleifion anffurfiol,² yn gallu defnyddio eu hamser i fynd allan am dro, neu i fynd i siopa yn yr ardal leol. Gwnaethom siarad ag un claf a oedd yn mynychu cwrs addysgol mewn coleg lleol.

Yn ystod ein hymweliad, gwelsom sesiwn ymlacio'n cael ei chynnal. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw a oedd wedi mynychu'r sesiwn hon pa mor llesol yr oeddent wedi ei chael. Dywedodd rhai cleifion wrthym eu bod wedi mynychu'r dosbarthiadau coginio yn y gegin ymarfer, a oedd, unwaith eto, yn derbyn sylwadau cadarnhaol gan y cleifion hynny.

Roedd y tîm therapi galwedigaethol a leolir yn yr Uned Iechyd Meddwl yn cynnal asesiadau cleifion, gan gynnwys pan gawsant eu derbyn, ar gyfer cleifion ar y ward dderbyn, Ward 21, Ward 22, a'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig. Nid oedd y tîm therapi galwedigaethol yn darparu gwasanaeth ar gyfer y wardiau iechyd meddwl ar gyfer pobl hŷn. Roedd hwn yn cael ei ddarparu gan wasanaeth arall yn y bwrdd iechyd. Roedd y therapïau a'r gweithgareddau a oedd ar gael ar y wardiau'n cynnwys ymwybyddiaeth fyfyrion,³ therapi

²Claf anffurfiol yw claf sydd wedi cytuno i ddod i'r ysbyty, neu i aros ynddo o'i wirfodd. Nid ydynt yn cael eu cadw yn yr ysbyty o dan bwerau Deddf Iechyd Meddwl 1983.

³Mae ymwybyddiaeth fyfyrion yn ddull integreiddiol, sy'n seiliedig ar y meddwl a'r corff, sy'n helpu pobl i reoli eu meddyliau a'u teimladau. Mae defnydd o'r dull hwn yn mynd yn fwy

gwybyddol ymddygiadol⁴, a chrefftau. Dywedodd staff therapi galwedigaethol wrthym fod y grwpiau gweithgareddau a therapïau'n cael eu newid yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y grŵp cleifion.

Roedd swydd seicoleg glinigol lawn amser sefydledig wedi'i neilltuo ar gyfer yr uned cleifion mewnol. Fodd bynnag, ar adeg yr arolygiad roedd y swydd hon yn wag ac yn aros i gael ei llenwi. O ganlyniad, ar adeg ein harolygiad, roedd cleifion yn cael eu hatgyfeirio at seicolegydd pe bai angen mewnbwn gan y gwasanaeth hwn.

Roedd mynediad at wasanaethau eraill, gan gynnwys deintydd, optegydd a phodiatriydd, yn cael ei drefnu ar gyfer cleifion a oedd angen apwyntiadau.

Dywedodd staff wrthym fod cleifion yn cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth eiriolaeth trwy'r ward dderbyn. Roedd posteri a oedd yn hysbysebu gwasanaethau eiriolaeth a'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth yn weladwy ar y wardiau, ac roedd y rhan fwyaf o gleifion yn gwybod amdanynt neu wedi'u defnyddio. Dywedodd cleifion a staff fod gwasanaethau eiriolaeth yn ymweld â'r ward yn rheolaidd. Fodd bynnag, dywedodd staff wrthym nad oedd eiriolwyr bellach yn darparu gwasanaeth ar y ward. Yn hytrach, maent yn rhoi rhifau cyswllt i gleifion er mwyn iddynt ffonio am wybodaeth a chyngor penodol.

Gofal iechyd cyffredinol

Gwnaeth adolygiad o ystafelloedd yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig a Ward Seren nodi'r canlynol:

- Nid oedd y clinig ar Ward Seren yn addas i'r diben oherwydd bod yr ystafell yn cael ei defnyddio i storio dillad gwely, eiddo cleifion, a chyfarpar cyffredin.
- Nid oedd cyfleusterau golchi dwylo yn y clinig ar Ward Seren.
- Nid oedd gan glinig Ward Seren ddrws stabl. Roedd meddyginiaeth yn cael ei gweinyddu o'r ystafell tra oedd y drws yn cael ei ddal ar agor.
- Nid oedd cwpwrdd ar gyfer cyffuriau a reolir yn y clinig ar Ward Seren.
- Gwnaeth adolygiad o rai o'r siartiau meddyginiaeth ar Ward Seren nodi nifer o rannau gwag.

Mae angen adolygu'r rhannau hyn a'u diwygio.

cyffredin mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mae NICE yn ei argymhell fel arfer ataliol ar gyfer pobl sy'n dioddef o bylchau cylchol o iselder. Mae mwy o wybodaeth yn <http://www.mentalhealth.org.uk/help-information/mental-health-a-z/M/mindfulness/>

⁴ Mae therapi gwybyddol ymddygiadol yn therapi siarad a all eich helpu i reoli eich problemau trwy newid y ffordd yr ydych yn meddwl ac yn ymddwyn.

Argymhellion

Mae angen adolygiad o ystafell glinigol Ward Seren, er mwyn sicrhau bod manau clinigol yn cael eu defnyddio mewn ffordd briodol, yn hytrach nag fel lle i storio llyeiniau ac eiddo cleifion. Rhaid sicrhau bod cyfleusterau golchi dwylo ar gael, ac mae'n rhaid gweinyddu meddyginiaeth mewn ffordd ddiogel.

Bwyd a maetheg

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod yn mwynhau'r bwyd a oedd yn cael ei weini yn yr ysbyty. Roedd pedwar pryd o fwyd y dydd yn cael eu cynnig i gleifion, gan gynnwys brecwast, cinio, te a swper.

Dywedodd staff wrthym fod brecwast yn cynnwys grawnfwyd, tost a diodydd. Roedd grawnfwyd yn cael eu hanfon o'r gegin ac roedd y staff ar y ward yn gwneud tost ar gyfer y cleifion. Roedd cinio a the'n cael eu gweini gan staff arlwy, ac roedd swper yn cynnwys brechdanau neu dost a wneid gan staff y ward.

Roedd bwydlen ar gael er mwyn i gleifion ddewis yr hyn yr oeddent am ei fwyta. Nid oedd cleifion ar y ward dderbyn yn dewis ymlaen llaw. Oherwydd bod y cleifion ar y ward dderbyn yn symud ymlaen o fewn rhwng saith a deg diwrnod, dywedodd staff wrthym fod cleifion yn dewis eu bwyd pan oedd y troli bwyd yn cyrraedd y ward. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw nad oeddent yn hoff o'r drefn hon. Dywedodd un claf fod y bwyd yn oer pan oedd yn cyrraedd, a dywedodd eraill fod yr amrywiaeth yn gyfyng oherwydd mai eu ward nhw oedd yr olaf i gael ei gweini. Roedd y troli bwyd yn mynd i Ward 21 a Ward 22 cyn cyrraedd y ward dderbyn.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn darparu ar gyfer cleifion a chanddynt anghenion deietegol penodol. Roedd opsiynau diabetig a deietau bwyd meddal yn cael eu darparu ar gyfer cleifion a oedd eu hangen. Lle bo angen, roedd staff yn gallu gofyn i ddeietegydd sicrhau bod deiet claf yn briodol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a'r staff fod opsiynau poeth ac oer ar gael amser cinio ac amser te, gan gynnwys prydau bwyd poeth â dewis o gig neu opsiwn llysieuol, saladau, brechdanau, tatws siaced, a phwdin.

Dywedodd un claf fod y dewis o frechdanau llysieuol yn gyfyng, a bod yn rhaid iddo dynnu'r cig o'i frechdan. Roedd claf arall wedi gofyn am wyau i frecwast, ac fe wrthodwyd y cais hwn. Dylai staff sicrhau y darperir opsiwn sy'n addas ar gyfer y claf.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion fod y dogn yn ddigonol a'u bod yn cael mwy fel arfer pe baent yn gofyn. Yn ystod ein hymweliad, gwnaethom arsylwi

ar ginio'n cael ei weini ar y ddwy ward, gyda'r staff yn dweud wrth y cleifion beth oedd yr opsiynau. Roedd y bwyd y gofynnwyd amdano'n cael ei roi ar y platau, ac roedd y cleifion yn mynd â nhw i'r ystafell fwyta i fwyta eu prydau bwyd. Gwnaethom arsylwi ar y staff ar Ward 21 yn rhoi cytleri a chynfennau yn yr ystafell fwyta.

Roedd cleifion yn gallu prynu a storio eu byrbrydau a'u diodydd eu hunain. Roedd oeryddion dŵr ar gael er mwyn i gleifion gael mynediad at ddŵr yfed, ac roedd amseroedd gosod ar waith pan oedd cleifion yn cael diodydd poeth. Er na welodd AGIC staff yn gwrthod rhoi diodydd neu fyrbrydau i gleifion, dywedodd rhai cleifion wrthym am anawsterau wrth gael diod neu fyrbryd y tu allan i amseroedd pryd bwyd arferol. Dywedodd un claf fod staff wedi gwrthod pan ofynnodd am ddiod boeth.

Roedd rhywfaint o ffrwythau ffres yn cael eu darparu ar y wardiau, er i rai cleifion ddweud nad oedd hyn yn digwydd bob dydd. Dywedodd rhai cleifion yr hoffent weld rhagor o ffrwythau ar gael, a dywedodd rhai cleifion wrthym fod ffrwythau ychwanegol wedi cyd-ddigwydd a'n presenoldeb ni ar y wardiau.

Argymhellion

Mae angen adolygiad o'r trefniadau cyfredol ynglŷn â sut mae cleifion yn dewis eu hopsiynau bwyd ar y ward dderbyn, er mwyn penderfynu a fyddai archebu bwyd ymlaen llaw yn fwy addas ar gyfer y grŵp cleifion.

Mae'n rhaid diwallu anghenion cleifion sydd ag anghenion deietegol penodol, ac ni ddylent orfod cyfaddawdu ynghylch eu deiet gan nad oes opsiynau bwyd ar gael.

Mae angen adolygiad ynglŷn â darparu ffrwythau ar y wardiau, er mwyn sicrhau bod gan gleifion mynediad at ffrwythau ffres.

Hyfforddiant

Gwnaethom adolygu ffeiliau deg aelod o staff, a chanfod mai un yn unig o'r deg ffeil a oedd yn cynnwys gwybodaeth gyflogaeth gynhwysfawr. Roedd y ffeil hon yn cynnwys dau eirida, ffurflen gais, contact cyflogaeth, datganiad addasrwydd i weithio, swydd-ddisgrifiad, a manyleb berson. Gwelwyd tystiolaeth yn y ffeil hon bod dogfennau gwreiddiol, gan gynnwys pasbort a thrwydded yrru, wedi cael eu gwirio cyn i'r aelod o staff ddechrau yn ei swydd.

Roedd y wybodaeth yn y ffeiliau eraill y gwnaethom eu hadolygu'n anghyson. Roedd tystiolaeth o un geirida mewn rhai ffeiliau, ac roedd ffeil arall heb

unrhyw eirdaon. Mae angen dull safonol ar gyfer pob ffeil staff, er mwyn sicrhau bod tystiolaeth ar gyfer y penodiad yn gyson.

Mae gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu rheoli'n ganolog o fewn Adran Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol y bwrdd iechyd – nid oedd yr wybodaeth hon yn cael ei chadw ar lefel y gyfarwyddiaeth.

Cadarnhaodd staff fod gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal ar gyfer pob aelod newydd o staff. Yn ogystal, dywedodd staff wrthym fod gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu hadnewyddu ar gyfer pob aelod o staff yn rheolaidd. Mae'r arfer hwn yn sicrhau bod yr ysbyty'n cynnal archwiliad annibynnol, sy'n helpu i wella gallu'r sefydliad i asesu gonestrwydd a chymeriad ei staff.

Roedd y ffeiliau a adolygwyd gennym, lle roedd gan staff gofrestrriad proffesiynol, yn dangos bod tystiolaeth tri o'r pedwar aelod o staff wedi dod i ben. Er nad oedd y ffeiliau'n cynnwys tystiolaeth o gofrestrriadau proffesiynol cyfredol, roedd system ar waith ar gyfer monitro'r maes hwn. Mae'r system e-gylchrestr yn dangos cofrestrriadau/bathodynau sydd ar fin dod i ben, ac yn anfon e-bost at staff er mwyn iddynt roi sylw i'r mater.

Roedd system ar waith er mwyn i staff gael adolygiad datblygu perfformiad blynyddol, a chadarnhaodd y rhan fwyaf o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael adolygiad datblygu perfformiad blynyddol. Roedd ystadegau'n dangos bod gan Ward 22 gyfradd gydymffurfio o 100%, a chan bob un o'r 16 aelod o staff adolygiad datblygu perfformiad blynyddol cyfredol. Mae angen rhoi sylw i'r wardiau ar gyfer pobl hŷn, gan mai dim ond 13 o'r 43 aelod o staff a oedd ag adolygiad datblygu perfformiad blynyddol cyfredol. Gwelwyd bod adolygiadau staff wedi dod i ben yn gynnar yn 2015, yn 2014, ac un yn 2013.

Roedd system ar waith ar gyfer goruchwyllo staff, ac roedd sesiynau'n cael eu cynnal rhwng pob pedair a chwe wythnos. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael eu dogfennu a bod y trafodaethau'n ystyrlon. Roedd y cofnodion goruchwyllo a arolygwyd gennym dyddiedig mis Medi a mis Hydref 2015. Roedd y trafodaethau'n cynnwys nifer o feysydd gan gynnwys llwyth achosion, hanfodion gofal, hyfforddiant, gwyliau, ac unrhyw faterion eraill.

Roedd rhaglen o hyfforddiant gorfodol ar waith, ac roedd system yn cael ei defnyddio er mwyn casglu, cofnodi a monitro cynnydd pob aelod o staff. Fe wnaeth dadansoddiad o'r ystadegau a roddwyd gan y bwrdd iechyd dynnu sylw at fylchau sylweddol ledled yr uned ynghylch hyfforddiant gorfodol. Roedd diffygion sylweddol ynglŷn â hyfforddiant ar y wardiau ar gyfer pobl hŷn, ac roedd meysydd yn cynnwys hyfforddiant canolradd cynnal bywyd a hyfforddiant risg yn cofnodi cyfradd gydymffurfio o 0%.

Roedd modiwlau hyfforddiant eraill yn dangos mai saith aelod o staff yn unig o gyfanswm o 44 a oedd yn cydymffurfio â hyfforddiant tân – nid oedd hyfforddiant rhai aelodau staff wedi cael ei ddiweddarau ers 2010. Ar gyfer rheoli heintiau, dau aelod o staff o gyfanswm o 44 a oedd yn cydymffurfio. Unwaith eto, nid oedd staff wedi derbyn hyfforddiant yn y maes hwn ers 2010 – ac nid oedd un aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant ers 2009. Mae maint y bylchau yn yr hyfforddiant ar y ward hon yn peri llawer o bryder, ac mae angen adolygiad ar unwaith i sicrhau bod hyfforddiant pob aelod o staff wedi cael ei ddiweddarau, er mwyn sicrhau diogelwch staff a chleifion.

Roedd cyfraddau o gwblhau'r modiwl ar drais ac ymddygiad ymosodol yn isel ledled yr uned, a rhai aelodau o staff heb gwblhau'r hyfforddiant blynyddol hwn ers 2009. Mae angen adolygiad o'r ystadegau ar gyfer hyfforddiant gorfodol ar unwaith, ac mae angen rhoi cynllun ar waith ar gyfer uwch-sgilio staff ar unwaith.

Argymhellion

Mae angen adolygiad o ffeiliau staff er mwyn sicrhau bod y wybodaeth ynddynt yn gyson.

Mae'n rhaid i bob aelod o staff gael arfarniad datblygu perfformiad blynyddol, gan roi sylw penodol i'r rhai y daeth eu hadolygiad i ben yn 2013 a 2014.

Mae angen adolygiad o hyfforddiant gorfodol er mwyn sicrhau bod gan staff y sgiliau a'r wybodaeth gyfredol. Dylid rhoi sylw penodol i staff mae eu hyfforddiant wedi dod i ben a/neu'r rhai sydd â chyfradd cydymffurfio o 0%.

Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cynllunio gofal a thriniaeth ar gyfer pedwar o gleifion yn Uned Iechyd Meddwl Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Y brif broblem a nodwyd gennym ynglŷn â'r mesur oedd pwy oedd yn gyfrifol am fewnbynnu a diweddarau'r wybodaeth. Roedd meysydd o arferion nodedig ynglŷn â Ward Seren, lle roedd y wybodaeth yn cael ei diweddarau'n rheolaidd, ac yn cael ei thrin fel dogfen fyw. Yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig, ystyrid mai staff yn y gymuned a oedd yn gyfrifol, ac nid oedd y mesur yn cael ei gymhwyso na'i ddefnyddio llawer yn yr uned.

Nodwyd bod mynediad at gynllunio gofal yn peri pryder yn ystod ein hymweliad. Roedd staff yn defnyddio pedair system wahanol – ac nid oedd un yn gallu cael mynediad at y llall.

Roedd y dystiolaeth o asesiadau risg ffurfiol yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig yn gyfyng, ond ar Ward Seren roedd dystiolaeth o arferion da ynglŷn ag asesiadau ffurfiol.

Gwnaed yr arsylwadau canlynol hefyd:

- Roedd gan ddau o'r pedwar cynllun gofal a thriniaeth a adolygwyd ddiffyg dystiolaeth, neu dystiolaeth gyfyng, o asesiad iechyd meddwl llawn a chynhwysfawr a oedd yn ymgorffori'r meini prawf a amlinellir yn y Mesur Iechyd Meddwl.
- Nid oedd dystiolaeth mewn un ffeil o asesiad iechyd corfforol llawn, ac nid oedd ffeil arall wedi cael ei diweddarau ers mis Mehefin 2015.
- Roedd un cynllun gofal a thriniaeth a adolygwyd yn sylfaenol ac yn canolbwyntio ar y gymuned – nid oedd unrhyw amcanion a leolir yn y ward na chanlyniadau i'w cyflawni.
- Nid oedd gan ddau gynllun gofal dystiolaeth nad oedd anghenion heb eu diwallu wedi cael eu nodi.

Nid oedd gan ddau o'r cynlluniau gofal a adolygwyd asesiadau risg ffurfiol a/neu asesiadau risg cyfredol.

Argymhelliad

Mae'n rhaid mynd i'r afael â phob un o'r meysydd a nodwyd, gan gynnwys sicrhau bod asesiadau risg ac asesiadau iechyd corfforol yn cael eu diweddarau a nodi anghenion sydd heb eu diwallu. Mae angen asesiadau risg a chynlluniau gofal llawn, sy'n nodi'n glir y cynllun triniaeth, amcanion, a'r canlyniadau i'w cyflawni.

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad, a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai cynllun gwella'r bwrdd iechyd ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Uned Iechyd Meddwl Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd cynllun gwella'r bwrdd iechyd, unwaith y cytunwyd arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus ar iechyd meddwl/anabledd dysgu.

Atodiad A

Iechyd Meddwl / Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella

Bwrdd Iechyd: Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Ysbyty: Uned Iechyd Meddwl Ysbyty Brenhinol Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 13 – 16 Hydref 2015

Argymhelliad	Cam gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae angen adolygiad o'r amgylchedd, ac mae'r gwaith atgyweirio sydd ei angen yn yr uned drwyddi draw yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• mae angen set law newydd ar gyfer y ffôn talu ar Ward 22• mae angen gosod ffryntiau ar y droriau lle maent ar goll yn yr ystafelloedd gwely	<p>Cwblhawyd y gwaith atgyweirio.</p> <p>Cwblhawyd yr archwiliad amgylcheddol, a bydd unrhyw faterion yn cael eu trafod trwy gyfarfod cyswllt yr Adran Ystadau.</p>	<p>Rheolwr Cymorth y Gyfarwyddiaeth</p> <p>Rheolwr Cymorth y Gyfarwyddiaeth/Uwch-nyrsys/</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>28 Chwefror 2016</p> <p>30 Mawrth 2016</p>

<ul style="list-style-type: none"> • roedd angen trwsio'r cypyrddau yn y gegin ar y ward dderbyn • mae angen sicrhau bod gan y sinciau ar y ward dderbyn gyflenwad o ddŵr • mae angen atgyweirio'r tŷ bach a'r cawodydd ar Ward 22 ac yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig ar unwaith, gan nad oeddent yn gweithio • nid oedd bleindiau a/neu lenni wedi'u gosod ar ffenestri rhai ystafelloedd gwely • roedd soced trydan mewn ystafell wely ar Ward 22 wedi torri ac mae angen ei drwsio • roedd stopiau drws wedi torri yn rhai o'r ystafelloedd gwely • mae angen adolygiad o'r mecanweithiau ar gyfer agor ffenestri, 	<p>Gweler uchod.</p> <p>Gweler uchod.</p> <p>Cwblhawyd atgyweiriadau i dai bach a chawodydd yn yr uned gofal dwys seiciatrig ym mis Rhagfyr 2015. Mae gwaith yn parhau yn y wardiau.</p> <p>Darnau newydd wedi'u harchebu. Rydym yn aros iddynt gyrraedd a chael eu gosod.</p> <p>Cwblhawyd y gwaith atgyweirio.</p> <p>Gweler uchod.</p> <p>Neilltuwyd cyllid gan yr Adran Ystadau ar gyfer gorffen y gwaith hwn ledled yr uned.</p>	<p>Rheolwyr</p> <p>Wardiau/Tîm Ystadau</p> <p>Rheolwr Cymorth y Gyfarwyddiaeth/Adran Ystadau</p> <p>Adran Ystadau</p> <p>Adran Ystadau</p> <p>Adran Ystadau</p>	<p>30 Mawrth 2016</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>28 Chwefror 2016</p> <p>30 Ebrill 2016</p>
---	---	---	--

<p>er mwyn sicrhau y gellir agor y ffenestri yn ddigon i gael mynediad at awyr ffres</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae angen trwsio'r tolciau a'r tyllau yn y waliau a'r nenfydau • mae angen cael gwared ar y set deledu sydd wedi torri ar y ward dderbyn • mae angen adolygu'r pinnau bawd y mae cleifion yn gallu eu cyrraedd ar rai hysbysfyrddau, er mwyn sicrhau nad yw diogelwch cleifion yn cael ei amharu • mae angen rhoi sylw i'r clo ar yr ystafell ymolchi i fenywod ar Ward 22, er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben 	<p>Cwblhawyd yr archwiliad amgylcheddol, a bydd unrhyw faterion yn cael eu trafod trwy gyfarfod cyswllt yr Adran Ystadau.</p> <p>Gweler uchod.</p> <p>Cwblhawyd yr adolygiad. Mae angen rhaglen ar gyfer disodli hysbysfyrddau caeedig i gael ei gweithredu yn ôl blaenoriaeth ac argaeledd cyllid.</p> <p>I dderbyn sylw trwy gyfarfod cyswllt yr Adran Ystadau.</p>	<p>Rheolwr Cymorth y Gyfarwyddiaeth/Uwchnyrsys/Rheolwyr Wardiau</p> <p>Rheolwr Cymorth y Gyfarwyddiaeth/Uwchnyrsys/Rheolwyr Wardiau</p> <p>Rheolwr Cymorth y Gyfarwyddiaeth</p>	<p>28 Chwefror 2016</p> <p>30 Medi 2016</p> <p>28 Chwefror 2016</p>
---	---	---	---

<p>Mae angen rhoi sylw i'r manau awyr agored, yn enwedig y manau ysmegu ar y ward derbyn a Ward 21, er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y grŵp cleifion. Mae angen eu glanhau'n drwyadl a gosod gwydr diogelwch newydd.</p>	<p>Mae gwydr diogelwch wedi cael ei archebu.</p> <p>Cytuno amserlen reolaidd i'r Adran Ystadau olchi patios â golchudd jet.</p>	<p>Rheolwr Cymorth y Gyfarwyddiaeth/Adran Ystadau</p>	<p>30 Mawrth 2016</p>
<p>Mae angen mynd i'r afael â'r broblem barhaus ynglŷn â'r draeniau ledled yr uned, ac mae angen cymryd camau er mwyn cael gwared ar yr aroglau annifyr sydd ar y wardiau.</p>	<p>Mae'r broblem hon wedi parhau ers i'r adeilad gael ei gomisiynu. Bydd y mater hwn yn cael ei uwchgyfeirio unwaith eto trwy'r Rhaglen Gyfalaf, a bydd cynnig yn cael ei ddatblygu gan y bwrdd iechyd prifysgol.</p>	<p>Rheolwr Cymorth y Gyfarwyddiaeth/Bwrdd Cynllunio Cyfalaf</p>	<p>30 Mehefin 2016</p>
<p>Mae angen adolygiad o'r cyfleusterau storio, yn enwedig ar Ward 21, er mwyn sicrhau bod yr ystafelloedd yn cael eu defnyddio mewn ffordd briodol, yn hytrach nag fel lle i waredu ar bob math o offer, eiddo a gwahanol eitemau.</p>	<p>Mae'r ystafell lifddor wedi cael ei chlirio.</p> <p>Mae bocsys storio wedi cael eu harchebu er mwyn i gleifion storio eu heiddo personol. Bydd cleifion yn cael eu hannog yn barhaus i gyfyngu nifer eu heitemau personol ar y ward.</p>	<p>Rheolwr y Ward</p> <p>Rheolwr y Ward/Rheolwr Cymorth y Gyfarwyddiaeth</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>30 Mawrth 2016</p>

	Mae angen adolygiad o le oddi ar y wardiau er mwyn creu manau storio ychwanegol ar gyfer y wardiau. Ceisio cyllid ar gyfer y cynllun hwn.	Rheolwr y Ward/Rheolwr Cymorth y Gyfarwyddiaeth	30 Ebrill 2016
Mae angen adolygiad o'r dodrefn newydd yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig, er mwyn sicrhau nad oes pwyntiau clymu ar y gosodiadau a'r ffitiadau.	Mae'r dodrefn sydd newydd gael eu gosod wedi cael eu gwirio, ac fe gytunwyd ar addasiadau bach gyda'r cyflenwr er mwyn gwella diogelwch cyffredinol. Mae'r fanyleb hon wedi cael ei defnyddio ar gyfer cam nesaf y broses disodli hen ddodrefn.	Pennaeth Nyrso/Rheolwr Cymorth y Gyfarwyddiaeth	31 Rhagfyr 2015
Mae angen adolygiad o niferoedd staff nyrsio er mwyn sicrhau bod digon o staff ar draws yr holl wardiau, ac i sicrhau diogelwch a lles pob claf a phob aelod o staff.	Cymerwyd camau gweithredu ar unwaith er mwyn gwella lefelau staff nyrsio yn y nos. Dechreuwyd adolygiad o staffio a chymysgedd sgiliau nyrsys ledled yr uned iechyd meddwl. Casglwyd gwybodaeth feincnodi. Mae'r Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl yn cymryd rhan yn y broses o weithredu asesiad llwyth gwaith proffesiynol/offerynnau aciwtedd. Caiff bapur ei baratoi i'w ystyried gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a'r aelodau bwrdd perthnasol.	Pennaeth Nyrso/Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau	30 Ionawr 2016

<p>Mae angen archwiliad o bwyntiau clymu ar gyfer yr holl uned, ac mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.</p>	<p>Mae pob rheolwr ward wedi cwblhau neu wedi adolygu archwiliadau blynyddol o bwyntiau clymu, ac wedi cael eu hatgoffa o'r angen i ddiweddarau'r rhain ar ôl unrhyw newidiadau i amgylchedd y cleifion. Rhoddwyd system ar waith i sicrhau ansawdd y rhain, ac i fonitro cydymffurfiaeth trwy gyfarfod chwarterol y Gyfarwyddiaeth Iechyd a Diogelwch.</p> <table border="1" data-bbox="797 887 1379 1323"> <thead> <tr> <th data-bbox="797 887 1099 1070">Ward</th> <th data-bbox="1099 887 1379 1070">Cwblhawyd yr archwiliad blynyddol o bwyntiau clymu.</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td data-bbox="797 1070 1099 1182">Uned Gofal Dwys Seiciatrig</td> <td data-bbox="1099 1070 1379 1182">29.10.2015</td> </tr> <tr> <td data-bbox="797 1182 1099 1254">Ward Seren</td> <td data-bbox="1099 1182 1379 1254">01.11.2015</td> </tr> <tr> <td data-bbox="797 1254 1099 1323">Uned Gofal</td> <td data-bbox="1099 1254 1379 1323">01.11.2015</td> </tr> </tbody> </table>	Ward	Cwblhawyd yr archwiliad blynyddol o bwyntiau clymu.	Uned Gofal Dwys Seiciatrig	29.10.2015	Ward Seren	01.11.2015	Uned Gofal	01.11.2015	<p>Pennaeth Nyrsio/Cydlynnydd Iechyd a Diogelwch</p>	<p>Cwblhawyd</p>
Ward	Cwblhawyd yr archwiliad blynyddol o bwyntiau clymu.										
Uned Gofal Dwys Seiciatrig	29.10.2015										
Ward Seren	01.11.2015										
Uned Gofal	01.11.2015										

	<table border="1"> <tr> <td>Estynedig</td> <td></td> </tr> <tr> <td>Uned Llai Dwys</td> <td>01.11.2015</td> </tr> <tr> <td>Ward 21</td> <td>22.10.2015</td> </tr> <tr> <td>Ward 22</td> <td>26.11.2015</td> </tr> <tr> <td>Ward Dderbyn</td> <td>11.11.2015</td> </tr> </table>	Estynedig		Uned Llai Dwys	01.11.2015	Ward 21	22.10.2015	Ward 22	26.11.2015	Ward Dderbyn	11.11.2015		
Estynedig													
Uned Llai Dwys	01.11.2015												
Ward 21	22.10.2015												
Ward 22	26.11.2015												
Ward Dderbyn	11.11.2015												
<p>Mae angen adolygiad o drefn yr holl wardiau, er mwyn sicrhau bod diogelwch cleifion a staff yn cael ei gynnal ym mhob man – gan ganolbwyntio yn benodol ar ystafelloedd gwelyau'r cleifion.</p>	<p>Cafodd y manau clinigol eu dylunio a'u comisiynu gan Adran Ystadau Iechyd Cymru yn 2004 fel uned adeilad ychwanegol i Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Mae'n annhebyg y newidir y drefn yn y dyfodol rhagweladwy. Fodd bynnag, fe fyddwn yn parhau i sicrhau bod y risgiau sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd yn cael eu hasesu'n unigol ar gyfer pob claf yn ei gynllun gofal a thriniaeth.</p>	Rheolwr y Ward	Yn parhau										
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r cyfraniad a wneir gan ymgynghorwyr at y wardiau yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.</p>	<p>Sefydlir gweithgor amlddisgyblaethol er mwyn adolygu arferion cyfredol ledled pob ward iechyd meddwl yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.</p>	Cyfarwyddwr Clinigol	30 Gorffennaf 2016										

<p>Mae angen cyflwyno system well ar gyfer trosglwyddo sifft, er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth trosglwyddo sifft yn cael ei chofnodi mewn ffordd briodol, yn hytrach na chael ei charpio.</p>	<p>Bydd llyfr trosglwyddo sifft safonol yn cael ei gyflwyno trwy fforwm rheolwyr wardiau.</p>	<p>Uwch-nyrsys</p>	<p>30 Mai 2016</p>
<p>Mae angen gosod llenni preifatrwydd rhwng y gwelyau yn yr ystafelloedd dau wely.</p>	<p>Archebwyd y llenni. Aros iddynt gyrraedd a chael eu gosod.</p>	<p>Adran Ystadau</p>	<p>30 Mawrth 2016</p>
<p>Mae angen adolygiad o'r wardiau ar gyfer menywod a dynion, ac ystyried eu defnyddio ar gyfer naill ai menywod neu ddynion.</p>	<p>Nid yw adborth gan gleifion wedi nodi bod y drefn bresennol yn broblem.</p> <p>O ystyried y lle sydd ar gael, niferoedd gwely cyffredinol a'r angen i symud cleifion ymlaen, nid yw'n bosibl creu wardiau ar gyfer naill ai menywod neu ddynion. Mae'r rhan fwyaf o'r ystafelloedd gwely'n ystafelloedd sengl â chyfleusterau en-suite. Mae o leiaf ddau gilfan ar gyfer naill ai menywod neu ddynion. Dim ond mannau cymunedol sydd ar gyfer menywod a dynion. Mae arsylwadau ar ddiogelwch a chymorth yn nodi problemau ynglŷn ag urddas.</p>	<p>Pennaeth Nyrsio</p>	<p>Cwblhawyd</p>

<p>Mae angen gorchuddio'r byrddau gwybodaeth am gleifion yn y swyddfa nyrsys pan nad ydynt yn cael eu defnyddio, er mwyn diogelu'r wybodaeth sydd arnynt.</p>	<p>Mae gorchuddion wedi cael eu gosod er mwyn cuddio hysbysfyrdau gwybodaeth am gleifion pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.</p>	<p>Rheolwr Cymorth y Gyfarwyddiaeth</p>	<p>Cwblhawyd</p>
<p>Mae angen adolygiad o ystafell glinigol Ward Seren, er mwyn sicrhau bod manau clinigol yn cael eu defnyddio mewn ffordd briodol, yn hytrach nag fel lle i storio llieiniau ac eiddo cleifion. Rhaid sicrhau bod cyfleusterau golchi dwylo ar gael, ac mae'n rhaid gweinyddu meddyginiaeth mewn ffordd ddiogel.</p>	<p>Mae angen adolygiad o'r lle sydd ar gael ar Ward Seren er mwyn ymchwilio i opsiynau ar gyfer sicrhau bod cyfleusterau golchi dwylo priodol.</p>	<p>Rheolwr Cymorth y Gyfarwyddiaeth/Adran Ystadau</p>	<p>30 Ebrill 2016</p>
<p>Mae angen adolygiad o'r trefniadau cyfredol ynglŷn â sut mae cleifion yn dewis eu hopsiynau bwyd ar y ward dderbyn, er mwyn penderfynu a fyddai archebu bwyd ymlaen llaw yn fwy addas ar gyfer y grŵp cleifion.</p>	<p>Ymchwiliwyd i'r opsiynau, ac oherwydd trosiant cleifion ac arhosiad byr cleifion os ydynt yn aros, teimlir bod y system bresennol yn effeithiol iawn.</p>	<p>Rheolwr Ward/Adran Arlwy</p>	<p>Cwblhawyd</p>
<p>Mae'n rhaid diwallu anghenion cleifion sydd ag anghenion deietegol penodol, ac ni ddylent orfod cyfaddawdu ynghylch eu deiet gan nad</p>	<p>Mae archwiliadau cyfredol yn dangos bod pob angen deietegol yn cael ei ddiwallu.</p>	<p>Rheolwyr ward/Adran Arlwy</p>	<p>Cwblhawyd</p>

oes opsiynau bwyd ar gael.			
Mae angen adolygiad ynglŷn â darparu ffrwythau ar y wardiau, er mwyn sicrhau bod gan gleifion mynediad at ffrwythau ffres.	Cwblhawyd adolygiad o'r ddarpariaeth gyfredol.	Rheolwr Cymorth y Gyfarwyddiaeth/Adran Arlwy	Cwblhawyd
Mae angen adolygiad o ffeiliau staff er mwyn sicrhau bod y wybodaeth ynddynt yn gyson.	Lleolir system personél Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn ganolog gydag Adran y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol. Mae'r gwasanaeth yng nghanol y broses o drosglwyddo i gofnodion staff electronig. Gwneir gwaith i sicrhau bod y system leol yn adlewyrchu'r cofnodion canolog.	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau a'r Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol	30 Medi 2016
Mae'n rhaid i bob aelod o staff gael arfarniad datblygu perfformiad blynyddol, gan roi sylw penodol i'r rhai y daeth eu hadolygiad i ben yn 2013 a 2014.	Mae'r gyfradd bresennol o gydymffurfio ag adolygiad datblygu perfformiad yn 77%, ac mae hon yn cael ei monitro yn y cyfarfodydd rheoli perfformiad misol. Mae cymorth ychwanegol gan reolwyr wardiau wedi cael ei neilltuo ar gyfer yr uned asesu iechyd meddwl pobl hŷn, er mwyn cynorthwyo â'r llwyth gwaith.	Pennaeth Nyrsio	Yn parhau
Mae angen adolygiad o hyfforddiant gorfodol er mwyn sicrhau bod gan staff y sgiliau a'r wybodaeth gyfredol. Dylid rhoi sylw penodol i staff mae eu hyfforddiant wedi dod i ben	Mae cofnodion hyfforddi wedi cael eu hadolygu. Oherwydd y broses o drosglwyddo i system cofnodion staff	Rheolwyr Ward/Uwch-nyrsys	30 Mawrth 2016

<p>a/neu'r rhai sydd â chyfradd cydymffurfio o 0%.</p>	<p>electronig, cafodd rhai anghywirdebau eu nodi a'u cywiro.</p> <p>Bydd y defnydd o ddiwrnodau amser i ffwrdd yn cael ei ehangu er mwyn hwyluso gwell cydymffurfiaeth.</p>		
<p>Mae'n rhaid mynd i'r afael â phob un o'r meysydd a nodwyd, gan gynnwys sicrhau bod asesiadau risg ac asesiadau iechyd corfforol yn cael eu diweddarau a nodi anghenion sydd heb eu diwallu. Mae angen asesiadau risg a chynlluniau gofal llawn, sy'n nodi'n glir y cynllun triniaeth, amcanion, a'r canlyniadau i'w cyflawni.</p>	<p>Mae adolygiad o'r holl brosesau asesu a dogfennu wedi cael ei gwblhau. Mae gwybodaeth gynhwysfawr ynglŷn â chynlluniau gofal a thriniaeth a risg ar gael ar draws pob maes, ac yn cael ei monitro trwy ddangosfwrdd perfformiad.</p>	<p>Uwch-nyrsys/Rheolwyr Wardiau</p>	<p>Cwblhawyd</p>